




Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!



Dod i adnabod



Rhian Cadwaladr



A hithau newydd ddathlu ei phen blwydd yn 60, mae Rhian wedi cyhoeddi tair nofel: *Fi Sy'n Cael y Ci, Môr a Mynydd a Plethu*. Cyhoeddodd ei chyfrol gyntaf i blant, *Nain Nain Nain*, yn 2019 ac ers hynny mae wedi bod yn cydweithio â'i merch ar gyfres o lyfrau *Ynyr yr Ysbryd* i blant bach. Cyhoeddodd gyfrol o rysetiau ac atgofion, *Casa Cadwaladr*, yn 2021. Pan nad yw'n ysgrifennu, mi ddewch o hyd iddi yn y gegin neu'n crwydro'r brynau efo'i camera.

Crynodeb:

Mae pedair ffrind bore oes yn benderfynol o drefnu trip arbennig i ddathlu eu penblwyddi yn 60. Ond â'u bywydau wedi dilyn trywyddau tra gwahanol tydi hynny ddim yn hawdd: pwy fydd yn edrych ar ôl mam Linda, wyrion Sioned a chaffi lola? Pam fod Gwawr mor benderfynol o fynd i Efrog Newydd? Ac o gyrraedd pen eu taith, a fyddan nhw'n actio'u hoed? Cyhoeddir *Dathlu!* ar 29ain o Fehefin.



Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu *Dathlu!*?

Pan ges i'r syniad am y nofel nôl yn 2020 ro'n i ddwy flynedd i ffwrdd o fy mhenblwydd yn 60 ac ro i'n awyddus i bortredu bywydau merched o'r oed yna - yr oed lle mae merched wedi mynd yn anweledig yn ôl y sôn - wedi gorffen magu plant ac yn dod i ddiwedd eu gyrfaoedd. Ydi bywyd felly yn haws? Neu ydi heriau newydd a'r ofn o ddirywio, yn gorffol a meddyliol, yn gwneud bywyd yn anos? Ac ydan ni wir yn anweledig?

Dywedwch ychydig am y stori rydych chi wedi'i chreu ...

Mae pedair ffrind bore oes yn benderfynol o drefnu trip arbennig i ddathlu eu penblwyddi yn 60. Ond â'u bywydau wedi dilyn trywyddau tra gwahanol tydi hynny ddim yn hawdd: mae Linda yn gofalu yn llawn amser am ei mam, Sioned yn gwarchod ei wyrion a lola yn rhedeg caffi. Mae Gwawr, fodd bynnag, a'i thraed yn rhydd ac yn awyddus iawn i fynd i Efrog Newydd, lle bu'n byw am gyfnod yn yr wythdegau. Mae swmp y nofel yn dilyn eu hanturiaethau yno - yr hwyl a'r heriau.

Beth ydych chi'n gobeithio y bydd darllenwyr yn ei gael o'r stori hon?

Dwi'n gobeithio y bydd hi'n codi gwên ond hefyd yn gwneud i rywun feddwl ychydig. Does na ddim byd yn drwm ynddi, er ei bod yn delio efo pynciau digon dyrys. Dwi'n gobeithio y byddan nhw yn medru uniaethu efo'r cymeriadau, dim ots pa oed ydyn nhw - rydan ni'n teimlo yr un emosiynau ac yn delio efo problemau digon tebyg beth bynnag ein oed.

Oedd unrhyw heriau arbennig wrth baratoi'r llyfr?

Mae'r nofel yn cychwyn yn Chwefror 2022, flwyddyn a hanner ar ôl i mi ddechrau ei sgwennu hi. Roedd yn rhaid i mi felly ddyfalu'r dyfodol, ac roedd Covid, wrth gwrs, yn gwneud hyn yn anodd. Do'n i ddim yn gwbod a fydden ni'n medru teithio dramor hyd yn oed. Rhyddhad mawr oedd mod i wedi dyfalu yn gywir!



carreg-gwalch.cymru



Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru

